**GWASANAETH PENDREF, 24 GORFFENAF 2016 - JOB**

*Amser i adfer yw'r oedfa - defod*
*Ufudd teulu Adda,*
*Awr bêr i dori bara:*
*Golau dydd y Bugail Da.*

Bore da i chi 'gyd a chroeso i'r gwasanaeth. A gawn ni ddechrau'r oedfa drwy gydganu rhif yr emyn 36 (T27) : *Wel, dyma hyfryd fan.*

*Un tro roedd dyn o'r enw Job yn byw yng ngwlad Us. Roedd yn ddyn gonest, yn trin pobl eraill yn deg, ac yn ddyn oedd yn addoli Duw o ddifri ac yn cadw draw oddi wrth ddrwg. Roedd ganddo saith mab a thair merch. A dyma restr o'i holl eiddo: saith mil o ddefaid, tair mil o gamelod, pum cant pâr o ychen a phum cant o asennod, a nifer fawr iawn o weithwyr. Roedd yn fwy cyfoethog nag unrhyw un arall o bobl y dwyrain i gyd. Roedd ei feibion yn arfer cynnal partïon yn eu cartrefi, pob un yn ei dro ar ddiwrnod penodol o'r wythnos. Bydden nhw'n gwahodd eu tair chwaer i fwyta ac yfed gyda nhw. Pan oedd yr wythnos o bartïo drosodd, byddai Job yn anfon amdanyn nhw iddyn nhw fynd trwy'r ddefod o gael eu glanhau. Byddai'n codi'n gynnar yn y bore, ac yn cyflwyno offrymau i'w llosgi i Dduw ar eu rhan nhw i gyd. Roedd yn meddwl, "Falle fod fy mhlant i wedi pechu, ac wedi melltithio Duw." Roedd Job yn gwneud hyn yn rheolaidd.*

*Un diwrnod dyma'r bodau nefol yn dod i sefyll o flaen yr Arglwydd, a dyma Satan Ref yn dod gyda nhw. Gofynnodd yr Arglwyddi Satan, "Ble wyt ti wedi bod?" Atebodd Satan yr ARGLWYDD, "Dim ond crwydro yma ac acw ar y ddaear." A dyma'r Arglwyddyn gofyn i Satan, "Wyt ti wedi sylwi ar fy ngwas Job? Does neb tebyg iddo ar wyneb y ddaear. Mae'n ddyn gonest ac yn trin pobl eraill yn deg; mae'n addoli Duw o ddifri ac yn cadw draw oddi wrth ddrwg." Atebodd Satan, "Ond mae dy addoli di yn fanteisiol iddo! Y ffaith ydy, rwyt ti wedi gosod ffens o'i gwmpas i'w amddiffyn, ac o gwmpas ei deulu a popeth sydd ganddo. Ti'n gadael iddo lwyddo beth bynnag mae'n ei wneud. Mae ganddo ddigon o anifeiliaid i lenwi'r wlad i gyd! Ond petaet ti'n cymryd y cwbl oddi arno, byddai'n dy felltithio di yn dy wyneb!" Felly dyma'r Arglwyddyn dweud wrth Satan, "Edrych, cei wneud beth bynnag rwyt ti eisiau i'w eiddo; ond paid cyffwrdd Job ei hun."*

A gawn ni gan 'mhellach rhif yr emyn 717 (T585) : *I dawel lwybrau gweddi.*

A gawn ni gyd-weddio:

*O badera'n heulfan Elfed - a haul*
*Tôn Sgwâr Wilton, rhodded*
*I ni foes y groes yn gred,*
*A gair y Gŵr i'n gwared.*

Diolchgwn unwaith eto am y cyfle i fwynhau cwmni'n gilydd, a chwmni'r un sydd uwchlaw pob deall, ar fore Sul ym Mhendref. Diolchwn am y cyfle i fyfyrio ar ystyr bywyd ac ystyr byw yn dda, mewn ymdrech i gadw'r ffydd a chynal y fflam.

Ry'n ni mor ffodus fel cynulleidfa o fwynhau bywydau gymharol gyfforddus yn Nyffryn Clwyd. Mae gennym deulu a ffrindiau, gobeithion ac atgofion. Mae gennym yddoe, heddiw ac yfory. Efallai mai nid ni yw'r bobl mwyaf cefnog yn y byd, nid ni yw'r bobl iachaf, nid ni yw'r bobl clyfraf na'r mwyaf ffodus. Ond o'i gymharu â rhai, gwyddom fod genym filiynau yn y banc, flynyddoedd o iechyd i ddiolch amdano, a doniau ac hapusrwydd i'n cyfoethogi. Gwyddom ein bod yn byw fel brenhinoedd o'i gymharu â rhai, a ry'n ni'n hynod ddiolchgar am hyny.

Cofiwn am rheini sy'n llai ffodus na ni am gant a mil o resymau. Gweddiwn ar i neges y Beibl, a ffordd cariad fod yn gysur iddynt. Meddyliwn am ffrindiau â salwch hir-dymor, ffrindiau ag iselder ysbryd, ffrindiau heb unman i droi. Meddyliwn am ffrindiau sy'n galaru o golli anwyliaid.

Gweddiwn am bobl Lybia, bobl Syria, bobl Affrica is-Sahara sy'n dioddef newyn a syched ac afiechyd parhaus. Cofiwn am bobl Twrci - gwlad yr Apostol Paul - sy'n wynebu'r llu o ffoaduriaid, eithafiaeth mwslemaidd a byddin wedi ei aflonyddu. Meddyliwn am rheini sy’n byw mewn newyn a thlodi dros y byd i gyd, ac yswn i weld eu byd yn gwella.

Gweddiwn am y nerth i geisio gwella pethau. Gwyddom fod hyn yn hynod anodd: sut allwn ni yn Rhuthun wella'r byd? Ond gwyddom fod yn rhaid i ni geisio, fod yn rhaid i ni drio gwneud y pethau bychain a gweddio rhywffordd neu gilydd bydd y rhain i gyd yn pentyru'n don o obaith, yn don o ddaioni i olchi'r gofidion iffwrdd, i olchi’r byd yn wyn.Gweddïwn dros rheini sy’n rhoi o’u hamser i wella’n byd, a sylweddolwn fod llawer yn rhoi wythnosau, bynyddoedd a bywydau cyfan, heb yn wybod i ni, i wneud ein byd yn fwy cyfiawn a theg – a diolchwn iddynt o waelod calon.

Sylweddolwn fod bywyd yn fregus – yn llawer mwy bregus nag y tybiwn. Fod bywyd mor fyw, and yn arwynebol mor ddibwys. Amrantiad ydym yn hanes y bydysawd, yn llai na dim. Ond yng ngolwg Duw yn werth y byd.

*Gafael anwes uwch-gyflenwad o’r tic*
*I’r toc, diwedd eiliad;*
*Codi gwydr i’r enyd rhad,*
*A-men awdl mewn anadliad.*

Gweddïwn dros ein harweinwyr, y cawn nhw’r gallu i wneud penderfyniadau doeth mewn o dan amgylchiadau sy’n newid mor sydyn mewn byd lle mae hawliau’r unigolyn yn bwysicach na hawliau cymdeithas. Lle mae rhyddid yr unigolyn yn caethiwo cymdeithas. Lle mae fi yn trechu ni. Lle mae arian yn boddi anian. ‘Da ni’n byw mewn bocs sy’n brysyr dywyllu, yn methu gweld tuhwnt i furiau uchelgais personol, trachwant gyfalafol a’r farchnad rhydd. Gweddïwn am y goleuni. Gweddïwn dros ddedwyddwch a chydraddoldeb. Gweddïwn am y nerth i roi ein cyd-ddyn yn gyntaf, lle bynag y bo, nid ni ein hunain.

*Yn alltud mewn byd sy'n hollti o weld*
*Plwyfoldeb a thlodi;*
*Rho i'm foes, a rhwyma fi*
*Yn d'awen, Agnus Dei.*

Gweddïwn dros ein harweinwyr yng Nghymru, y cawn nhw’r hyder, y weledigaeth a’r dyfalbarhad i greu Cymru gyfartal, ddemocrataidd. Gwyddom taw ein cyfrifolder ni yw ceisio creu byd a chymdeithas i efelychu neges y Beibl - cymdeithas yn seiliedig ar wir gydraddoldeb - ar garu cymydog, lle bynag y bo.

Meddyliwn am ddyfodol ein Daear. Gobeithiwn y bydd ein harweinwyr yn gweld yn ddoeth i gyd-weithio a chyd-aberthu er lles ein planed.

A diolchwn o’r newydd y bore ‘ma am eiriau’r Testament Newydd, am ganllaw bywyd Iesu o Nasareth a gobaith neges Paul. Gofynwn i neges yr Iesu fwydo’n bywydau ni, i buro’n calonau ni, i gynal ein fflam a gwneud i’n golau mewnol wenu’n llachar a thyner, fel y gallwn ni ysbrydoli eraill, ac eraill ein hysbrydoli ni.

Chwiliwn am nerth i fyw'n addwyn a thrugarog. I fyw â chariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunan-ddisgyblaeth. A chwiliwn am y nerth i wneud gwahaniaeth, i fod yn gymwynasgar, i rhoi'r flaenaf yn olaf, a'r olaf yn flaenaf.

*Dilyn oen heb boen penyd – dilyn sarn*
*Nid rhagfarn ein drygfyd;*
*Dilyn bloedd y miloedd mud;*
*Maddau bai, meddu bywyd.*

Gofynwn hyn yn enw'r un a'n dysgodd, pan yn weddïo, i ddweud gyda'n gilydd: Ein Tad yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, ...

**CYHOEDDI A CHASGLU**

A gawn ni barhau drwy gyd-ganu rhif yr emyn 205 (T73) : *Dyma gariad fel y moroedd.*

Mae wedi bod yn adeg o gyffro ac o newid aruthrol ym Mhrydain dros y mis diwethaf. Y refferendwm Brexit a'i ganlyniadau –yr hysbys, yr anhysbys a'r anwybodadwy - yn tynu nyth cacwn am ein penau. Yn agos bocs Pandora o bosibiliadau, da a drwg. Yn achosi anhrefn gwleidyddol, newid prif-weinidog a llywodraeth. Yn achosi galwadau am anibyniaeth i'r Alban yn enwedig - a Chymru. Holltwyd barn y cyhoedd i lawr y canol – yn ddaearyddol, yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn ddiwyllianol. Mae 'na rhesymeg a daliadau cryfion gan wŷr Brexit a gwŷr "Aros". Ta waeth ein daliadau ni yma'r bore 'ma, heb os nag oni bai, mae'r blynyddoedd nesaf yn mynd i fod fel prawf ar Brydain, ac yn dyngedfenol i Gymru. Yn bleser, yn gyfle, yn obaith i rhai. Yn artaeth i eraill. Ond yn brawf arnom i gyd.

Pan oeddwn yn fachgen yng Nghwm Tawe, byddai'r ysgol Sul am 2yp yng Nghapel Pantteg. Pan oeddwn yn ifanc iawn, dwi'n cofio dosbarthiadau gwahanol i'r plant bach, i'r plant hŷn, i'r bobl ifanc, i'r gwragedd ac i'r dynion. Yn y festri roedd y plant bach, ond mewn grwpiau gwasgaredig ar hyd a lled y capel eisteddai'r gweddill. Emyn a gweddi i ddechrau'r Ysgol Sul, wedyn pawb yn rhanu, cyn ail-ymgynull yn y capel ar ddiwedd yr Ysgol Sul i ganu *Dan dy fendith wrth ymadael* a throi am adre. Digon cyffredin oedd profiadau'r Ysgol Sul. Magwyd cenhedlaethau o Gymry yn yr un traddodiad. Ond dwi'n cofio un adeg yn arbenig. Y Parch Eurof Jones, gynt o Rhosllanerchrugog, oedd y gweinidog ar y pryd. Penderfynodd y byddai'r oedolion i gyd yn astudio a thrafod un llyfr o'r beibl gyda'i gilydd am gyfnod. Plentyn oeddwn i ar y pryd; nid oeddwn yn rhan o'r dosbarth. Ond cofiaf yn glir y trafodaethau gartref rhwng mam a dad o ganlyniad i'r dosbarthiadau. Byddai dad yn ddigon hapus trafod y Beibl a chwestiynau moesol yn arferol, ond tawelach oedd mam. Ond yn ystod cyfnod trafod llyfr Job yn yr Ysgol Sul, mam yn enwedig a phigwyd gan y dadleuon.

Fel y gwyddom, trafod un o gwestiynau anoddaf bywyd moesol – a bywyd Cristnogol yn enwedig - mae Llyfr Job. Cwestiwn a osodwyd ac a drafodwyd mil-gwaith dros y canrifoedd. Cwestiwn a heria'n ffydd a'n synwyr cyffredin. Cwestiwn a heria'n syniad o degwch a chyfiawnder. Cwestiwn a heria'n syniad o Dduw.Oes yw dyn yn byw yn dda, paham mae Duw yn caniatau iddo ddioddef?

***Oes yw dyn yn byw yn dda, paham mae Duw yn caniatau iddo ddioddef?***

Gwelwn ddioddefaint o'n cwmpas bob dydd. Ry'n ni 'gyd âphrofiad odeulu neu ffrindiau agos yn dioddef. Mae'n cyfryngau yn or-barod i ddod â newydd o ddioddefaint o bedwar ban byd i'n

cartrefi yn ddyddiol. Gan fynychaf, anodd iawn gweld sut mae'r person sy'n dioddef yn haeddu'r ddioddefaint. Ymddengys mai *anlwc* yn unig - a dim byd mwy - sy'n gyfrifol. Anlwc cael eich genu mewn gwlad dlawd yn Affrica. Anhap byw â nam corfforol neu afiechyd neu iselder ysbryd. Anlwc fod celloedd eich corff heb rheswm na rhybudd yn dechrau treiglo'n afreolus a chreu canser. Anhap marw mewn damwain ffordd. Sut yn y byd gall hyn fod yn deg?

Ry'n ni 'gyd wedi profi cyfnodau â theulu neu ffrindiau agos yn dioddef. Teimlwn bryder a phoen. Euogrwydd. Naturiol yw cwestiynu: Pam? Pam nawr? Pam nhw? Pam fi?Pam nid fi?

Gellid dadlau hefyd fod dioddefaint yn ehangach na phoen corfforol a meddyliol personol. Onid ffurf o ddioddefaint yw byw mewn cymdeithas lle mae'r geiniog, trachwant ac uchelgais personol yn lladd ar undod a brawdgarwch? Mae hanes Prydain yn drwch o anhegwch cymdeithasol. Un dyn yn creu trafferth a dioddefaint i'w gyd-ddyn. Meddyliwch am Ogledd Iwerddon - Cristion yn erbyn Cristion. Meddyliwch am ein system wleidyddol: gwleidyddion profesynol heb brofiad ymarferol yn dweud popeth a dweud dim ar yr un pryd. Onid math o ddioddefaint yw hwn i'r dyn cyffredin?

Wrth gwrs, rydym wedi profi gwellianau cymdeithasol aruthrol - mae breuddwydion fel rhai Martin Luther King yn cael eu gwireddu yn araf deg - ond yn anffodus nid mewn un cam hwylus ond drwy miliynau o frwydron beunyddiol. Camau bach, pethau bychain bywyd, bob dydd yn gwella cylfwr cymdeithas. Ond, chwedl yr Iddew, mae'n fel petai fod rhaid cymryd camau'n ôl er mwyn camu ymlaen yn aml. Meddyliwch am hanes y dwyrain canol. Mae ardal wedi bod mewn trybini er miloedd o flynyddoedd, a dim golwg fod pethau'n gwella. Yn wir gellid honi mai tuag yn ol mae'r symud yn y degawd diwethaf. Ydi hyn yn deg ar bobl gwlad yr Apostol Paul, neu bobl Syria? Neu'r Israel, neu Balestina? Neu bobl dduon yr Unol Daleithiau bellach yn teimlo fod rhaid iddynt gario dryll i'w gwarchod rhag heddlu'r wlad.

***Oes yw dyn yn byw yn dda, paham mae Duw yn caniatau iddo ddioddef?***

Mae llyfr Job yn go arbenig. Mae'n llyfr *barddonol* (fel y Diarhebion a'r Pregethwr) sy'n sôn am ddoethineb. Ond mae adeiledd llyfr Job yn unigryw.Mae'r hanes lenyddol yn hynod ddiddorol. Dywed rhai fod llyfr Job – yn Hebraeg, Arameeg a Groeg – gyda'r barddoniaeth orau ysgrifenwyd. Ond dwi'n gwybod bron dim amdano'n anffodus! Daw'r stori o amser cyndadau'r Iddewon, stori am *Sheikh* cyfoethog o'r enw Job oedd yn Iddew da, yn gefnog ac yn hapus ei fyd. Roedd ganddo wraig a phlant a digon o gyfoeth. Er waethaf ei gyfoeth materol, ni ellid gorbwysleisio mai Iddew da oedd Job a lynai at ddisgwyliadau'r ffydd Iddewig, at ffyrdd Iddewig a thradodiadau Iddewig. Yn ddiamau, dyn da oedd Job. Rhaid cadw mewn cof hefyd, yn y cyfnod hwn, nid oedd y syniad o fywyd tragwyddol yn bodoli. Y cyfan a welai dyn oedd y daith o'r groth i'r bedd; dyma hyd a lled byw dyn. Byddai dyn da yn cael bywyd da, a dyn drwg fywyd drwg. Roedd cyfoeth, iechyd ac hapusrwydd yn arwyddion pendant fod dyn yn byw yn dda. I'r gwrthwyneb, cosb oedd tlodi, haint a diflasdod; dim ond bobl drwg fyddai'n profi rhain.Ffyniant oedd y wobr am fywyd da; trychineb oedd y gosb am bechod.

Roedd Job wirioneddol yn ddyn da. Y disgwyliad felly oedd y byddai'n cael byw yn dda. Ac felly, mae'r hyn a ddigwyddodd i Job yn anodd i'w goelio, yn anodd i'w dderbyn. Yn gwthio ffiniau cred. Rhywffordd neu gilydd mae Satan yn darbwyllo Duw y dylsai ffydd Job gael ei brofi. Dylid amddifadu Job o'i gyfoeth, ei deulu a'i iechyd i weld a fyddai'n cadw'r ffydd, a'n dal i geisio byw'r bywyd da er waethaf yr amgylchiadau.

Roedd gan Job ffrindiau o Iddewon, hefyd yn ceisio byw'r bywyd da. Gwelant bywyd Job yn gwaethygu'n arw. Ceisiant gysuro Job, ond dehonglant ei gyflwri feddwl fod Job yn ddyn

pechadurus, yn ddyn drwg. Ond gwada Job eu honiadau. Yn eu tro, mae'r ffrindiauEliffas o Teman, Bildad o Shwach, Soffar o Naäma ac Elihu yn myfyrio, yn cysuro, yn cyhuddo - a Job yn ymateb. Trafodaeth am yn ail am bron i ddeugain penod, heb i un ochr na'r llall ildio.

*Bore Job bu bara jam - rhodd y diawl*
*Trodd y dydd yn fedlam*
*Dirdynol, anuwiol nam;*
*A'i gwmni'n holi: Paham?*

O'r cychwyn, mae Job wedi tori ei galon. Dywedodd:

*"O na fyddai'r diwrnod y ces i fy ngeni yn cael ei ddileu o hanes! - y noson honno y dwedodd rhywun,'Mae bachgen wedi ei eni!'*
*O na fyddai'r diwrnod hwnnw yn dywyllwch,fel petai'r Duw sydd uchod heb erioed ei alw i fod,a golau dydd heb wawrio arno!*
*O na fyddai tywyllwch dudew yn ei guddio;a chwmwl yn gorwedd drosto,a'r düwch yn ei ddychryn i ffwrdd!*
*O na fyddai tywyllwch dudew wedi cipio'r noson honno,fel na fyddai'n cael ei chyfrif yn un o ddyddiau'r flwyddyn,ac na fyddai i'w gweld ar galendr y misoedd!*
*O na fyddai'r noson honno wedi bod yn ddiffrwyth, heb sŵn neb yn dathlu'n llawen ynddi!*
*O na fyddai'r rhai sy'n dewino wedi melltithio'r diwrnod hwnnw - y rhai sy'n gallu deffro'r ddraig yn y môr!*
*O na fyddai'r sêr wedi diffodd y noson honno,a'r bore wedi disgwyl yn ofer am y golau,*
*a heb weld pelydrau'r wawr am ei bod heb gloi drysau croth fy mam,a'm rhwystro rhag gweld trybini.*
*Pam wnes i ddim cael fy ngeni'n farw,neu ddarfod wrth ddod allan o'r groth?*
*Pam oedd gliniau yn disgwyl amdana i,a bronnau i mi ddechrau eu sugno?*
*Heb hynny byddwn yn gorwedd yn dawel,yn cysgu'n drwm a gorffwys yn y bedd,gyda brenhinoedd a'u cynghorwyr,y rhai fu'n codi palasau sydd bellach yn adfeilion;gydag arweinwyr oedd â digon o aur,ac wedi llenwi eu tai ag arian.*
*Pam na ches i fy nghuddio fel erthyl marw,neu fabi wnaeth ddim gweld y golau?Yn y bedd mae holl brysurdeb pobl ddrwg wedi peidio,a'r gweithwyr oedd dan orthrwm yn cael gorffwys.Mae caethion yn cael ymlacio'n llwyr,heb lais y meistri gwaith yn gweiddi.Mae pobl fawr a chyffredin yno fel ei gilydd,a'r caethwas yn rhydd rhag ei feistr.*
*Pam mae Duw'n rhoi golau i'r un sy'n dioddef,a bywyd i'r rhai sy'n chwerw eu hysbryd?Maen nhw'n ysu am gael marw, ond yn methu - yn chwilio am hynny yn fwy na thrysor cudd.Maen nhw'n hapus, ac yn dathlu'n llawenpan maen nhw'n cyrraedd y bedd.*
*Pam rhoi bywyd i berson heb bwrpas,a'i gau i mewn rhag dianc o'i drybini?Yn lle bwyta dw i'n gwneud dim ond ochneidio;dw i'n griddfan ac yn beichio crïo.Mae'r hyn oeddwn yn ei ofni wedi digwydd;yr hyn oedd yn peri arswyd wedi dod yn wir.Does gen i ddim llonydd, dim heddwch, dim gorffwys - dim ond trafferthion."*

Collodd Job ei fuddion i gyd: ei ychen a'i asenod, ei ddefaid a'i gamelod. Collodd ei gwmni:lladdwyd ei weision, ei deulu. Collodd ei iechyd. Pwy na fyddai'n amau ei ffydd:

*Yn chwerwder wyneb cerydd - unig wyt*
*Mewn gwatwar a chystudd;*
*Daw nef o gadw'n ufudd?*
*Ai hyder ffwl cadw'r ffydd?*

Ond drwy'r cwbl, ni chollodd ei ffydd. Er waethaf ei addysg uniongred, a'r awgrymiadau amlwg ogyflwr ofnadwy ei fywyd ei fod yn bechadur - a'r honiadau i'r un perwyl gan ei ffrindiau - ni

chollodd ei ffydd. Mae'n amau, ond nid yw'n colli ei ffydd. Fe'i ddallwyd gan ei brofiadau erchyll, ond cadwodd y ffydd:

*Ar ynys glwyfus, o glyw y tirion,*
*Gweld estron fal distryw,*
*Rhin hagrwch mor unigryw:*
*Dallu dyn â deall Duw.*

Ond yn y pen draw mae'r Arglwydd yn ymddangos i Job, ac yn ei wawdio am Ei amau:

*"Pwy ydy hwn sy'n amau fy nghynllun i, ac yn siarad heb ddeall dim?Torcha dy lewys fel dyn! Gofynna i gwestiynau, a gei di ateb.*
*Ble roeddet ti pan osodais i sylfeini'r ddaear? Ateb fi os wyt ti'n gwybod y cwbl!*
*Pwy benderfynodd beth fyddai ei maint? — ti'n siŵr o fod yn gwybod! Pwy wnaeth ddefnyddio llinyn i'w mesur?Ar beth y gosodwyd ei sylfeini?Pwy osododd ei chonglfaen?*
*Ble oeddet ti pan oedd sêr y bore yn canu gyda'i gilyddа holl angylion Duw yn gweiddi'n llawen?*
*Pwy gaeodd y drysau ar y môrwrth iddo arllwys allan o'r groth?Fi roddodd gymylau yn wisg amdano,a'i lapio mewn niwl trwchus.Fi osododd derfyn iddo,a'i gadw tu ôl i ddrysau wedi eu bolltio.Dywedais, 'Cei di ddod hyd yma, ond dim pellach;dyma lle mae ymchwydd dy donnau yn stopio!'*
*Wyt ti erioed wedi gorchymyn i'r bore ddod,a dangos i'r wawr ble i dorri,a sut i ledu a gafael yn ymylon y ddaear,ac ysgwyd y rhai drwg oddi arni?Mae ei siâp yn dod i'r golwg fel clai dan sêl,a ffurfiau'r tir i'w gweld fel plygion dilledyn.Mae'r golau'n tarfu ar y rhai drwg,*
*ac mae'r fraich sy'n treisio'n cael ei thorri.*
*Wyt ti wedi bod at y ffynhonnau sy'n llenwi'r môr,neu gerdded mannau dirgel y dyfnder?*
*Ydy giatiau marwolaeth wedi eu dangos i ti?Wyt ti wedi gweld y giatiau i'r tywyllwch dudew?*
*Oes gen ti syniad mor fawr ydy'r ddaear?*
*Os wyt ti'n gwybod hyn i gyd — dywed wrtho i!*
*Pa ffordd mae mynd i ble mae'r golau'n byw?O ble mae'r tywyllwch yn dod?Wyt ti'n gallu dangos ble mae ffiniau'r ddau,a dangos iddyn nhw sut i fynd adre?Mae'n siŵr dy fod, gan dy fod wedi dy eni bryd hynny,ac wedi bod yn fyw ers cymaint o flynyddoedd!*
*Wyt ti wedi bod i mewn i stordai'r eira,neu wedi gweld y storfeydd o genllysgsy'n cael eu cadw ar gyfer y dyddiau anodd,pan mae brwydrau a rhyfeloedd?Sut mae mynd i ble mae'r mellt yn cael eu gwasgaru?O ble daw gwynt y dwyrain i chwythu drwy'r byd?*
*Pwy gerfiodd sianelau i'r stormydd glaw,a llwybrau i'r mellt a'r taranau,iddi lawio ar dir lle does neb yn byw,ac anialwch sydd heb unrhyw un yno?*
*Mae'r tir anial sych yn cael ei socian,ac mae glaswellt yn tyfu drosto.Oes tad gan y glaw?*
*Pwy genhedlodd y defnynnau gwlith?O groth pwy y daeth y rhew?Pwy roddodd enedigaeth i'r barrug,pan mae'r dŵr yn troi'n galed,ac wyneb y dyfroedd yn rhewi?*
*Alli di blethu Pleiadesneu ddatod belt Orion?Alli di ddod â'r planedau allan yn eu tymor,*
*neu dywys yr Arth Fawr a'r Arth Fach?Wyt ti'n gyfarwydd â threfn y cosmos,a sut mae'n effeithio ar y ddaear?Alli di roi gorchymyn i'r cymylaui arllwys dŵr ar dy ben fel llif?*
*Alli di alw ar y mellt i fflachio,a'u cael nhw i ateb 'Dyma ni'?*
*Pwy sy'n rhoi doethineb i'r galona deall i'r meddwl?37 Pwy sy'n ddigon clyfar i gyfri'r cymylau?Pwy sy'n gallu arllwys dŵr o gostreli'r awyra gwneud i'r pridd lifo fel llaid,ac i'r talpiau o bridd lynu wrth ei gilydd?*

Mae Duw yn ymddangos i Job, ac er nad oes esboniad na chyfiawnhad i'w ddioddefaint, mae Job yn fodlon o weld Duw. Mae gweld Duw yn ddigon. Yn ddigon iddo gadw'r ffydd.Dywed:

*Mae'n wir, dw i'n neb. Beth alla i ddweud? Dw i'n mynd i gadw'n dawel.*
*Dw i wedi siarad gormod, ac alla i ddim ateb eto. Dw i am ddweud dim mwy.*

Nid yw yn deall yr hyn a ddigwyddodd iddo. Nid oes ganddo esboniad. Mae y tuhwnt i’w ddeall.Nid oes ganddo ddadl mwyach. Ond dychwelir iddo ei wraig a'i deulu, ei gyfoeth a'i fywyd dedwydd. Cadwodd y ffydd; roedd popeth yn dda ar ben y daith.Y dehongliad a roddir i'r hanes yw'r canlynol: roedd dealltwriaeth Job a'i ffrindiau o ffordd cyfiawnder, ffordd ffydd, ffordd bywyd, yn rhy gul. Gwelsant fywyd moesol fel dewis rhwng dau begwn - da a drwg. Bywyd da, sanctaidd neu fywyd drwg, pechadurus. Ond mae'r gwirionedd yn llawer mwy cymleth. Mae'r gwirionedd y tu hwnt i'n deall. Mae llwydni bywyd ym mhobman, ynghyd ag ambell smotyn o wyn - a du!Ni allwn ddisgwyl i bopeth fod yn dda beunydd. Ni allwn ddeall popeth. Ni allwn wybod popeth. Ond un peth sydd pob amser yn agored i ni yw'r dewis i gadw'r ffydd. Er waethaf yr amgylchiadau, er waethaf afiechyd a phrofedigaeth, er waethaf anhegwch a chreulondeb, er waethaf myfiaeth a thrachwant. Ni all neb, hyd yn oed y diafol ei hun (!), ymyryd â'n dewis i gadw’r ffydd.

Hwyrach dylsem weld afiechyd yn y goleuni hwn, afiechyd y corff ac afiechyd meddwl. Hwyr neu hwyrach, daw afiechyd a'i ganlyniadau i'n cyfarch ni ‘gyd; mae'n anochel. Collwn anwyliad; mae'n anochel. 'Da ni'n ddiolchgar am fywyd hir a hapus, ond gwyddom am lawer un na fu mor ffodus a ni. Er waethaf y diwedd anoched, mae genym y dewis i gadw’r ffydd.

*Braw wynebu'r anobaith - oed afiach,*
*Oed uffach gydeffaith;*
*Ond hardd ei lun dyn ar daith*
*Heb orffen tan yn berffaith.*

Hwyrach dylswn i’n bersonol weld canlyniad y refferendwm Ewropeaidd yn y goleuni hwn. Gwelaf berygl y bydd ein amgylchiadau cymdeithasol, diwyllianol ac economaiddyn gwaethygu am flynyddoedd i ddod; y bydd bywydau'n plant yn dlotach nag y dylsent fod; y bydd hiliaeth ffiaidd at estroniadyn tyfu - mae wedi dechrau yn barod - a gwyddom ni 'gyd o brofiadau'r ugeinfed ganrif i ba le mae'r lôn hono'n arwain. Gwelwn arwyddion o ryfel ar gyrion Ewrop, yn yr Iwcran ac yn Nhwrci, a thensiynau rhwng ddemocratiaeth seciwlar – o wreiddiau Cristnogol – ac eithafiaeth to bach o Fwslemiaid radical. Gwelwnein cymdeithas wedi hollti’n ddau, yn dadfeilio, yn llwydo o'n cwmpas. Arweinyddion yn dodi gyfra o flaengwyleidd-dra, y geiniog o flaen y genedl.Teimlwn ddigalondid, os nad anobaith llwyr.Ond mae genym y dewis i gadw’r ffydd. A phwy a ŵyr sut y bydd hi’n y pen draw?

Hwyrach dylsem weld pob prawf yn y goleuni hwn. Fel esboniodd y seicotherapydd Viktor Frankl, a ddioddefodd ei hun yn un o gampau angau’r Natsiaid – Auschwitz - yn ystod yr ail rhyfel byd, ni all neb rheoli’n bywyd mewnol personol ni. Hwn yw’r unig beth sydd wirioneddol o dan ein rheolaeth ni ein hunain. Er waethaf amgylchiadau allanol, ein dewis ni yw cyflwr ein bywyd mewnol; ein bywyd ysbrydol; ein fflam. Dywedodd: “*life holds a potential meaning under any conditions, even the most miserable ones.*”Argraffwyd 10 miliwn copi o’i lyfr *Man’s search for meaning*.

Dyma ddisgrifiad Frankl o ddiwedd y daith i Auschwitz: “*... We stumbled on in the darkness, over big stones and through large puddles, along the one road leading from the camp. The accompanying guards kept shouting at us and driving us with the butts of their rifles. Anyone with very sore feet supported himself on his neighbour's arm. Hardly a word was spoken; the icy wind did not encourage talk. Hiding his mouth behind his upturned collar, the man marching next to me whispered suddenly: "If our wives could see us now! I do hope they are better off in their camps and don't know what is happening to us."*

*That brought thoughts of my own wife to mind. And as we stumbled on for miles, slipping on icy spots, supporting each other time and again, dragging one another up and onward, nothing was said, but we both knew: each of us was thinking of his wife. Occasionally I looked at the sky, where the stars were fading and the pink light of the morning was beginning to spread behind a dark bank of clouds. But my mind clung to*

*my wife's image, imagining it with an uncanny acuteness. I heard her answering me, saw her smile, her frank and encouraging look. Real or not, her look was then more luminous than the sun which was beginning to rise.*

*A thought transfixed me: for the first time in my life I saw the truth as it is set into song by so many poets, proclaimed as the final wisdom by so many thinkers. The truth—that love is the ultimate and the highest goal to which man can aspire. Then I grasped the meaning of the greatest secret that human poetry and human thought and belief have to impart: The salvation of man is through love and in love. I understood how a man who has nothing left in this world still may know bliss, be it only for a brief moment, in the contemplation of his beloved. In a position of utter desolation, when man cannot express himself in positive action, when his only achievement may consist in enduring his sufferings in the right way—an honorable way—in such a position man can, through loving contemplation of the image he carries of his beloved, achieve fulfillment. For the first time in my life I was able to understand the meaning of the words, "The angels are lost in perpetual contemplation of an infinite glory".*

Ai dyma beth mae Job yn sylweddoli pan ymddangosodd Duw iddo ar ddiwedd ei brofiadau?

Dylsem weld pob muned o'n bywydau yn y goleuni hwn. Dywedodd yr athronydd Frederick Nietzsche: *Os bod gwir rheswm dros fyw, peth eilradd wedyn yw cyflwr y bywyd hwnw.Rydym mor ffodus fod cyfnodau helaeth o'n bywydau'n ddedwydd, â'r fflam fel petai'n cynal ei hun. Ond ta waeth yr amgylchiadau, mae'r dewis i gynal y fflam yn agored i bob un. Hwyrach na fyddwn fyth callach o wneud hyny, ond gwyddom y byddwn fodlon yn y pen draw.* Fel dywedodd Rebecca Solnit yn y Guardian ddydd Sadwrn diwethaf: *"Pan obeithiwn, cofleidiwn yr anhysbys, a'r anwybodadwy. Gobaith yw'r gred fod yr hyn a wnawn yn cyfrif. ("Hope is an embrace of the unknown and the unknowable. It is the belief that what we do matters.").*

Ie, dyma'r hyn mae Job yn ei sylweddoli. A hwyrach dyma'i neges i ni heddiw. Er waethaf yr amgylchiadau, ein dewis ni – a dewis neb arall - yw cadw'r ffydd. Ac os wnawn ni hyny, fel y profodd Job, y bydd popeth yniawn yn y pen draw.

Er mwyn ei Enw, A-men.

I ddiweddu'r oedfa, cyd-ganwn rhif yr emyn 22 (T16) : *Dan dy fendith wrth ymadael.*

*Yn ddefod, yw weddi ddwyfol – a iâs*
*Cael Iesu'n y ganol,*
*Rho oslef y nef yn ôl*
*I'm mynwes, Olau Mewnol.*

Bydded i ras Ein Harglwydd, Iesu Grist, ...